



Rhaglen Gweithgareddau Gartref i Fabanod 0 - 15 mis



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Lechyd Prifysgol
Hywel Dda
Hywel Dda University
Health Board





RHAGLEN GWEITHGAREDDAU GARTREF

Annwyl Riant / Gofalwr,
Defnyddiwch y llyfr hwn gartref gyda'ch plentyn i gynorthwyo'ch plentyn i ddysgu siarad a mwynhau rhigymau, caneuon a llyfrau o oedran cynnar. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau darllen yn y dyfodol a bydd o gymorth wrth symud i'r feithrinfa ac i'r ysgol.

A wyddech chi...

- Mae canu rhigymau o oedran cynnar yn gallu helpu'ch plentyn i ddysgu siarad
- Mae eich plentyn yn hoffi clywed yr un gân dro ar ôl tro - mae ailadrodd yn dda
- Os yw eich plentyn/plant yn gwybod llawer o ganeuon a rhigymau, byddant yn dysgu darllen yn haws

Mae'r pecyn gweithgareddau gartref hwn wedi'i lunio gan Wasanaeth Iaith a Chwarae Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin, er mwyn cynorthwyo plant rhwng 0 a 15 mis oed i ddatblygu iaith yn gynnar a hybu hyn.

Sylwer: Peidiwch byth â gadael eich babi neu'ch plentyn ar ei ben ei hun yn ystod y gweithgareddau hyn. Cynghorir rhieni i sicrhau bod plant yn cael eu goruchwyllo bob amser. Sicrhewch nad yw'r offer wedi'i ddifrodi a'i fod yn addas i'w ddiben.

OFFERYN CERDD



Mae rhyngweithio ag offerynnau cerdd yn ffordd wych o ddatblygu

2

Rhowch yr offeryn cerdd yn llaw eich babi a'i helpu i'w ysgwyd.

Bydd hyn yn datblygu cydsymudiad dwylo a llygaid, cyswllt llygaid a sgiliau gwrando.

Bydd canu caneuon/ hwiangerddi wrth ddefnyddio'r offeryn yn helpu i ddatblygu iaith yn gynnar.

Anogwch eich plentyn i'ch copïo wrth i chi wneud gweithredoedd syml gyda'r offeryn e.e. ei guro ar y llawr, ei dapio â'ch llaw ac ati.

Dim offeryn? Dim problem!



Sosbenni a Phadelli

Gwnewch ddrymiau gan ddefnyddio sosbenni a phadelli a llwy bren!



Caniau Gwag

Gallwch ddefnyddio caniau gwag i wneud offerynnau cerdd. Ond sicrhewch eich bod yn cael gwared ar gloriau miniog ac yn glanhau'r can yn drylwyr.



Reis neu Basta

Os nad oes gennych offeryn cerdd, gallwch ddefnyddio potel blastig fach llawn reis neu basta i greu seiniau. Sicrhewch fod y botel wedi'i selio'n gadarn.

cydsymudiad dwylo a llygaid, cyswllt llygaid a sgiliau gwrando eich babi.

3

PYPEDAU



Defnyddiwch y pyped pan fydd eich babi'n effro neu yn ystod amser tawel o'r dydd.

Canwch ganeuon megis "Fferm Tad-cu" a "Hicori Dicori Doc" gan ailadrodd synau anifeiliaid a gweithredoedd.

Chwaraewch gyda'r pyped gan wneud sŵn yr anifail. Anogwch eich babi i gopïo gweithredoedd a synau os yw'n gallu.

Mae copïo yn sgil bwysig ar gyfer datblygu iaith.

Anogwch eich babi i gopïo gweithredoedd a synau os yw'n gallu.

Dim pypedau? Dim problem!



Pypedau Hosan

Gallwch ddefnyddio unrhyw hosan i wneud pyped hosan. Os ydych yn defnyddio hosanau llw golau, gallech dynnu llun wyneb arnynt, rhoi'ch llaw i mewn i'r hosan a gwneud gwahanol synau.



Tiwbiau Cardbord

Defnyddiwch hen diwbiau cardbord, megis y rhai o bapur lapio, i greu pypedau drwy dynnu lluniau o wynebau/cymeriadau arnynt.



Tegan Meddal

Gallech ddefnyddio tegan meddal yn lle pyped, a gwneud enwau a lleisiau ar gyfer y gwahanol gymeriadau.

Mae copïo yn sgil bwysig ar gyfer datblygu iaith.

DRYCH



Rhowch y drych o flaen eich babi, gwnewch wynebau a synau doniol, ac annog eich babi i gopïo.

Gall babanod newydd anedig gopïo ystumiau wyneb person arall, fel rhoi eu tafod allan neu agor eu ceg.

Os oes gennych swigod, rhowch gynnig ar eu chwythu'n araf yn erbyn y drych. Mae hyn yn ffordd wych i fabanod ddilyn gyda'u llygaid, sy'n rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu sgillau edrych.

Anogwch eich babi i gopïo ystumiau wyneb.

Dim drych? Dim problem!



Ffoil

Os nad oes gennych ddrych, gallwch ddefnyddio darn o gardbord o flwch grawnfwyd a'i orchuddio â ffoil.



Sgarff neu Dywel

Defnyddiwch sgarff neu dywel i chwarae 'pi-po' gyda'ch plentyn bach. Daliwch y sgarff o'ch blaen a dywedwch "pi-po"



Wyneb yn wyneb

Eisteddwch wyneb yn wyneb â'ch babi a'i annog i gopïo ystumiau eich wyneb.

Mae cyswllt llygaid yn rhan bwysig o ddatblygiad babanod.

JIG-SO



Gall jig-sos syml helpu babanod i ddatblygu sgiliau symud a chydysymud dwylo a llygaid.

Gallwch eu defnyddio hefyd i annog datblygiad iaith. Pan fyddwch yn gwneud y jig-so gyda'ch babi, ailadroddwch eiriau syml e.e. “soch soch” “mochyn”, “wff wff” “ci”.

Anogwch eich babi i gopïo synau os yw'n gallu.

Gall jig-sos syml annog sgiliau

Dim jig-so? Dim problem!



Cylchgrawn

Os nad oes gennych jig-so, gallech bwyntio at luniau mewn llyfr / cylchgrawn wrth eu henwi.



Cardbord

Gwnewch jig-so i'ch babi gan ddefnyddio deunyddiau / cardbord wedi'i dorri'n 4 darn a'i annog i roi'r darnau ynghyd unwaith eto.



Gwrthrychau

Pwyntiwch at wrthrychau pob dydd a'u henwi. Gadewch i'ch babi archwilio'r eitemau wrth i chi eu henwi. Bydd siarad â'ch babi yn ei helpu i ddysgu am y byd sydd o'i gwmpas.

symud a sgiliau iaith.

PAD PAENT



Defnyddiwch y pad paent i greu atgofion o olion dwylo/traed eich babanod.

Gallwch helpu eich babi i roi ei law ar y pad paent a gwneud marciau ar bapur.

Ailadroddwch eiriau megis “llaw”, “troed”, “paent” wrth i chi ei wneud.

Mae paentio â bysedd yn weithgaredd ‘amser bola’ gwyh i fabanod.

Dim pad paent? Dim problem!



Iogwrt Naturiol
Os nad oes gennych unrhyw badiâu paent, gallech ddefnyddio iogwrt naturiol a lliwiau bwyd sy'n addas i blant/babanod.



Hufen Chwistrell
Gwnewch baent gan ddefnyddio hufen chwistrell a lliwiau bwyd.

Paentio â bysedd heb lanast

Gallwch gyflwyno paentio â bysedd, heb lanast, drwy roi paent bysedd mewn bag mawr sydd wedi'i selio â sip. Anogwch eich babi i wasgu'r bag.

Mae chwarae anniben yn hollbwysig i

hybu datblygiad synhwyraidd iach.

LLYFR CANEUON



Canwch hoff hwiangerddi
eich plentyn gan
ddefnyddio'r llyfr caneuon.
Gadewch i'ch plentyn
ddewis llun a chanwch y gân
yn araf i'w helpu i wrando ar
y geiriau.

Anogwch eich babi i gopïo
gweithredoedd a geiriau os
yw'n gallu.

Gallwch gael rhagor o
wybodaeth ar wefan
yr Ymddiriedolaeth
Llythrennedd Genedlaethol
contact@literacytrust.org.uk

Defnyddiwch eich llyfrgell lleol i gael mwy o syniadau am ganeuon a rhigymau.

Dim llyfr caneuon? Dim problem!

Dau gi bach yn
mynd i'r coed.
Dau gi bach y
mynd i'r coed,
esgid newydd
am bob broed,
Dau gi bach y
dwad adre
Wedi colli un o'u
sgidie.

I hear thunder.
I hear thunder.
Hark don't you?
hark don't you?
Pitter patter
raindrops,
pitter patter
raindrops.
I'm wet through,
so are you!

I'm a little tea
pot short and
stout here's my
handle here's
my spout.

When I get all
steamed up
hear me shout
tip me over and
pour me out.

Chwiliwch am eich llyfrgell leol yma: www.sirgar.llyw.cymru/llyfrgelloedd



CYNGHORION Y RHAGLEN WEITHGAREDDAU

